

COFNODION PWYLLGOR ARBENNIG EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Iau 18fed o Fawrth 2021

1. Presennol : Cyngorwyr : Gwilym Jones (Cadeirydd), Ian Jones, Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Jason Humphreys

2. Ymddiheuriadau : Nia Jeffreys

3. Llwybrau

(a). Tendrau torri Llwybrau 2021 – 22

Eglurwyd bod 4 tendr wedi dod i law fel a ganlyn :-

1. Garry Sheridan - £10,650.00
2. Chris Ellis - £11,300.00
3. Geraint Hughes (Gwynedd) - £9,186.94
4. Gwasanaeth Garddio Madog - £3,490.00

Nodwyd fod y 4ydd tendr yn anghyflawn gan nad oedd amcanbris wedi ei roi ar bob un o'r llwybrau. Efallai nad oedd ganddynt yr offer priodol i dorri'r tiroedd yma? Cytunwyd y dylid cefnogi busnes lleol ond gresyn nad oedd y tendr yn gyflawn.

Penderfynwyd :

- derbyn tendr Gwynedd eto am eleni
 - cysylltu efo Gwasanaeth Garddio Madog i egluro'r sefyllfa
 - codi'r mater yng nghyfarfod Pwyllgor Eiddo mis Tachwedd
 - cysylltu efo Ysgol Eifionydd i holi pwy sydd yn torri eu tiroedd nhw
 - efallai rhannu'r gwaith i 2 dendr y tro nesaf – un i gae Bodawen yn unig a'r llall ar gyfer y llwybrau yn unig
- yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

(b). Cyng Aled Griffith :- Cynnig ein bod yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn datgan pryder bod y giât ar y llwybr Capel Peniel i Lôn Haearn Bach wedi ei chloi ac yn rhwystro pobl dramwy ar hyd y llwybr.

Nodwyd bod y Clerc wedi ymchwilio i'r mater ac wedi gweld dogfennaeth yn profi fod y Cyngor Tref wedi holi Gwynedd ynglyn â chofrestru'r llwybr ym mis Mai 2013, ac nad oedd dim sôn am y llwybr ar restr llwybrau'r Cyngor Tref yn y gorffennol. Cytunwyd y dylid ymchwilio i pwy sydd biau'r cae er mwyn gofyn iddynt ddatgloi'r giât.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig

3. Biliau i'w talu

Awdurdodwyd y taliadau canlynol :

Tom Parry & Co	Rhoi gwerth ar Bryn Coffa a Cae Pawb	£360.00
Marian Roberts	Ad-daliad am dalu bil Breese Gwyndaf am gofrestru Bryn Coffa a Cae Pawb	£ 90.00

4. Rhif Cais.: C21/0240/44/MG (ebost 16.3.21)

Lleoliad : Greenacres Holiday Park Black Rock Sands, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9YF
Bwriad: Cais i ryddhau amod 2 (gorffeniad allanol) ar ganiatad cynllunio C20/1094/44/LL ar gyfer gosod caban derbyn.

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad

5. U.F.A

Nodwyd fod y Clerc wedi archebu arwydd Dim ysmegu i'w osod ar giât Cae Chwarae Bodawen gan fod ysmegu mewn man chwarae cyhoeddus bellach yn anghyfreithlon. Roedd y Clerc wedi derbyn templad gan Gyngor Gwynedd ar gyfer yr arwydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30

Marian Roberts 18.3.21

